# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 20 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.25 - 12.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_20_03_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews AC**<br>**Rebecca Evans AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Professor Peter Barrett-Lee, Ymddiriedolaeth GIG Felindre**<br>**Dr Richard Clements, Pwyllgor Sefydlog Cymru o Goleg Brenhinol y Radiolegwyr**<br>**Dr Martin Rolles, Pwyllgor Sefydlog Cymru o Goleg Brenhinol y Radiolegwyr**<br>**Dr Alan Rees, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr**<br>**Dr Miles Allison, Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endoscopi Cymru**<br>**Jared Torkington, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon**<br>**Dr Nazia Hussain, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol** |

| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |
|---|---|

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Trafod ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Pwyllgor ynghylch yr ymchwiliad dilynol i leihau'r risg o strôc

2.1. Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w lythyr.

2.2. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y materion canlynol:

- i ofyn am eglurhad ynghylch yr amserlenni ar gyfer cynnal llawdriniaethau carotid;
- i fynegi gobaith y Pwyllgor y byddai'r Gweinidog yn ystyried dwyn ymlaen y dyddiad dechrau ar gyfer yr ymgyrch benodol ar ymwybyddiaeth strôc, a amlinellwyd fel 2014/15 yn y llythyr.

## 3 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 12

3.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 13

4.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.2. Gofynnodd Leighton Andrews AC am nodyn gan Lywodraeth Cymru am yr enghraifft a roddwyd gan Jared Torkington o gynllun hyfforddiant a gyflwynwyd yng Nghymru ar gyfer llawdriniaeth y colon a'r rhefr laparosgopig.

## 5 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 14

5.1. Bu'r tyst yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

5.2. Dywedodd y Dr Nazia Hussain y byddai'n darparu:

- nodyn am y modd y mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn ystyried llais cleifion wrth ddatblygu ei ddulliau gweithredu yn achos technolegau ac arloesedd, a'r modd y mae'r Coleg yn credu y dylai llais cleifion gael ei ystyried yn y broses arfarnu a chomisiynu;
- nodyn yn egluro a yw'r defnydd o dechnolegau meddygol yn rhan o'r broses ailddilysu ar gyfer meddygon teulu, neu a fydd yn rhan o'r broses.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1. Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2014.

**ADRODDIAD AM WAITH AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU**

Nododd yr Aelodau eu siom sylweddol bod canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'u datgelu cyn pryd.

Trafododd yr Aelodau ddatganiad gan y Gweinidog a gyhoeddwyd y bore hwnnw yn ymwneud â threfniadau newydd ar gyfer ymdrin â phryderon difrifol ynghylch gwasanaethau a sefydliadau'r GIG. Holodd yr Aelodau ynghylch amseriad y datganiad, o ystyried ei fod yn berthnasol i adroddiad y Pwyllgor ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Eglurwyd ar ôl y cyfarfod bod y datganiad wedi deillio o waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yng nghyswllt trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 1 a 2 o'r cyfarfod ar 26 Mawrth.

7.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.